PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 17 MEDI 2019

Present: Councillor Patel(Chairperson)
Councillors Boyle, Derbyshire, Owen Jones, Lancaster a/ac Wong

15 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Owen, Parry a Wood

16 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Cafwyd y datganiadau o fuddiant canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Cynghorydd Owen Jones | Eitem 4 ar yr agenda | Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |

17 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 2 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

18 : TRYDYDD ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar gynnwys adroddiad y Cabinet o'r enw 'Trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd'. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad a thrafod unrhyw gamau pellach yn ymwneud â'r adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 26 Ionawr 2016. Fel rhan o'r broses statudol o lunio cynllun datblygu, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a gyflwynir i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Dyma drydydd AMB Caerdydd sydd wedi'i baratoi ers mabwysiadu'r CDLl ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Mae'r AMB yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr a chymhariaeth â'r data gwaelodlin a ddarparwyd mewn AMBau blaenorol.

Bydd yr adroddiad yn helpu i lywio'r graddau y mae strategaeth, amcanion a pholisïau'r CDLl yn cael eu cyflawni. Bydd y canfyddiadau yn helpu i lywio proses adolygu'r CDLl gan ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad mawr o'r CDLl yn 2020. Cafodd prif ganfyddiadau'r AMB eu nodi yn yr adroddiad. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

- Cyflogaeth - mae monitro yn dangos perfformiad cryf - crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015. Ers yr AMB cyntaf mae nifer y swyddi wedi bod yn cynyddu'n raddol ac mae'r AMB diweddaraf yn dangos cynnydd o 6,000 ers mis

Ebrill 2018.

- Tai - mae data yn dangos bod cartrefi newydd wedi dechrau cael eu cwblhau ar lawer o safleoedd strategol y CDLl. Yn benodol, cwblhawyd 511 ym Mhentref Llanedern, 167 o gwblhau yn safle strategol y gogledd orllewin; a 51 o gwblhau yn safle strategol y gogledd ddwyrain.

  Adroddwyd bod y dull a arweinir gan gynllun bellach yn llwyddo i ddarparu cartrefi newydd. Cafodd 1444 eu cwblhau yn 2018/19, cynnydd o 43% ar 2017/18, ac yn wahanol i'r 9 mlynedd flaenorol a welodd gyfartaledd o 725 uned wedi'u cwblhau bob blwyddyn. Roedd y data hefyd yn dangos bod y bwlch rhwng mabwysiadu'r cynllun a chartrefi yn cael ei gwblhau oherwydd nifer o ffactorau cyfreithiol a logistaidd ynghyd â chael y caniatadau cynllunio angenrheidiol. Disgwyliwyd y byddai lefelau cwblhau tai yn cynyddu'n sylweddol dros y 7 mlynedd sy'n weddill o'r cynllun.

- Tai Fforddiadwy – targedau'r cynllun i ddarparu 6,646 o unedau fforddiadwy rhwng 2014 a 2026. Y targed dros dro ar gyfer 2019 yw 1,942 o unedau. Dengys y data bod 1,082 o unedau wedi'u cwblhau. Awgrymwyd bod hyn oherwydd y cynnydd arafach na'r disgwyl o ran darparu dyraniadau tai strategol. Disgwylid hefyd y byddai nifer y tai fforddiadwy a gwblheir yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd sy'n weddill o'r cynllun.

- Cludiant – mae'r data a gesglir mewn perthynas â theithio cynaliadwy yn dangos bod tueddiadau teithio cynaliadwy wedi parhau i gynyddu o ran gwaith a siopa, ond mae wedi gostwng ar gyfer hamdden ac addysg.

- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwallu'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a dros dro, gan gynnwys trafodaethau â Llywodraeth Cymru.

- Canllaw Cynllunio Atodol - gwnaed cynnydd sylweddol o ran cynhyrchu rhaglen o ganllawiau cynllunio atodol (CCA). Ers mabwysiadu'r CDLl, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 18 o Ganllawiau Cynllunio Atodol.

- Newidiadau Cyd-destunol – amlygu newidiadau i'r fframwaith polisi cenedlaethol sydd wedi esblygu'n sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf.

Daeth yr AMB i'r casgliad bod cynnydd da yn cael ei wneud yn gyffredinol o ran cyflawni'r targedau a nodwyd a monitro'r canlyniadau. Mae'r bwlch a nodwyd o ran darparu tai bellach yn dangos arwyddion cryf gwell o ran cwblhau.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth; James Clemence, Pennaeth Cynllunio a Stuart Williams, Arweinydd Grŵp (Polisi) Cynllunio. Ar ôl datganiad byr gan yr Aelod Cabinet, gwahoddwyd swyddogion i wneud datganiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i wneud sylwadau, i godi cwestiynau neu i ofyn am eglurhad ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Crynhoir y trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion am y 20,900 o swyddi a grëwyd rhwng 2006 a 2015. Gofynnwyd i swyddogion ym mha ardaloedd daearyddol y crëwyd y swyddi hynny a'r mathau o swyddi. Dywedodd swyddogion y cyfeiriwyd at ystadegau cenedlaethol bras. Nid yw'r ystadegau hyn yn rhoi manylion o'r fath ond os oedd angen rhagor o wybodaeth, gallai swyddogion gysylltu â chydweithwyr yn y tîm datblygu economaidd.

- Nododd Aelodau fod cyflog wythnosol wedi cynyddu 21% ond bod prisiau tai wedi cynyddu 32% dros yr un cyfnod. Gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn yn gynaliadwy'n ariannol ac a fyddai cynnydd o'r fath yn effeithio ar adeiladu tai. Dywedodd swyddogion fod y CDLl yn ddull o adeiladu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Os nad oedd CDLl ar waith yna roedd perygl o gynnydd cyflymach mewn prisiau tai. Mae'r CDLl yn cynyddu'r cyflenwad o safleoedd yn sylweddol ac wedi galluogi cwblhad 1500 o anheddau yn y 12 mis diwethaf. Roedd swyddogion o'r farn bod y cyflenwad yn allweddol i sicrhau prisiau rhesymol.

- Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am y safle Sipsiwn a Theithwyr. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod trafodaethau ynghylch safle Rover Way yn gymhleth a'u bod yn parhau.

- Nododd y Pwyllgor fod y tueddiad i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn lleihau. Dywedodd swyddogion fod y data'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Iechyd a'i fod yn ddata cyd-destunol lefel uchel o setiau data cenedlaethol. Nid oedd yn bosibl nodi'r union reswm yr oedd gweithgarwch corfforol yn lleihau o'r data hwnnw. Nid oedd unrhyw ddangosydd penodol ynglŷn â'r mater hwn yn y cynllun datblygu lleol.

- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y bwlch rhwng y targed a'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy a beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y targed yn y CDLl ar gyfer tai fforddiadwy wedi'i osod ar lefel y gellid ei chyflawni'n realistig. Gan fod y cynnydd o ran cwblhau gwaith wedi cynyddu ar safleoedd strategol mawr, ynghyd â rhaglen Partneriaeth Caerdydd, bydd mwy o dai fforddiadwy'n cael eu darparu.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddata yn ymwneud â darparu tai cymdeithasol yn y sector rhentu. Dywedodd swyddogion nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chipio'n uniongyrchol gan nad oes ei hangen ar gyfer yr adroddiad monitro.

- Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r awdurdod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o ran darparu tai fforddiadwy. Dywedodd swyddogion fod yr awdurdod yn cyrraedd ei dargedau canrannol ar hyn o bryd. Bydd yr AMB yn darparu mynegiad blynyddol. Roedd yn galonogol bod y prif safleoedd strategol yn dechrau dangos rhywfaint o dyniant ac mae'r niferoedd yn debygol o gynyddu. Fodd bynnag, roedd hyn yn parhau i fod yn ddibynnol ar nifer o ffactorau allanol.

- Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion egluro methodoleg y set ddata ar gyfer tueddiadau teithio a sut yr oedd yn cael ei monitro. Dywedodd swyddogion fod y data yn dod o arolwg holi Caerdydd. Arolwg 2019 fydd yr arolwg mwyaf cynhwysfawr hyd yma. Roedd swyddogion yn hyderus y bydd yr arolwg yn

darparu data cadarn.  Defnyddir setiau data eraill, fel yr Arolwg Teithio Cenedlaethol, i groeswirio'r data.

- Gofynnodd yr Aelodau pam y bu gostyngiad sylweddol yn yr hirdymor mewn teithio cynaliadwy ar gyfer addysg.  Dywedodd swyddogion fod arolwg Holi Caerdydd yn cael ei gwblhau gan oedolion yn hytrach na gan ddisgyblion.  Mae teithio gan ddisgyblion yn dangos cynnydd mewn teithio cynaliadwy.  Mae angen gwneud rhagor o waith i ddadansoddi'r mater hwn.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr awdurdod yn cyflwyno Cynlluniau Teithio Llesol ym mhob ysgol.

- Gofynnodd Aelod a oedd y buddsoddiad mewn seilwaith beicio yn cael effaith negyddol ar geir neu ar lonydd bysiau presennol.  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod modelu traffig yn cael ei wneud i leihau'r effaith andwyol ar fysiau.  Mae'r rhwydwaith yn y ddinas wedi bod yn bennaf ar gyfer ceir.  Mae'r awdurdod yn ceisio creu rhaniad mwy cytbwys a defnyddio ffyrdd yn fwy effeithlon.

- Dywedodd swyddogion fod canllawiau polisi Polisi Cynllunio Cymru wedi'u diweddaru, gyda'r prif newidiadau'n ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Roedd gan y CDLl eisoes ddull gwneud lle/uwchgynllunio ar waith.  Bydd yr awdurdod yn cadw Polisi Cynllunio Cymru mewn cof yn ei holl benderfyniadau rheoli.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau i gyflwyno CCA Bioamrywiaeth.  Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd modd cyflwyno polisi newydd.  Dim ond canllawiau ychwanegol y mae CCAu yn eu darparu.  Byddai newid polisi yn golygu newidiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o dai yn arwain at adolygiad o'r CDLl a phryd y byddai hyn yn digwydd.  Nododd swyddogion fod lefelau cwblhau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf rhwng 500 a 800 y flwyddyn.  Eleni, roedd 1500 wedi'u cwblhau.  Mae datblygwyr yn symud ymlaen ar bob safle strategol, gyda nifer o fannau gwahanol ar y safleoedd mwy.  Mae tystiolaeth gref i ddisgwyl i'r gyfradd cwblhau gyflymu ymhellach.  Ar hyn o bryd Caerdydd yw'r ddinas graidd sy'n tyfu cyflymaf yn y DU.

- Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw ddadansoddiad o'r mathau o fanwerthu yn yr AMB.  Roedd aelodau o'r farn y byddai dadansoddi'r mathau o fanwerthu a grëir yn helpu i ddeall y mathau o ganolfannau siopa ardal sy'n cael eu creu yn well.  Hysbyswyd yr Aelodau bod y data a gyflwynir ar gyfer adroddiadau AMB.  Mae'r awdurdod yn cydnabod bod y canolfannau ardal gwerth cynllunio mewn dangosyddion yn helpu.  Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod polisïau'n llwyddo ond mae nifer o ffactorau y tu hwnt i'r CDLl a fydd yn effeithio ar hyfywedd canolfannau ardal.

- Dywedodd un Aelod fod atyniad yn ystyriaeth bwysig ond nad oedd o fewn cwmpas y CDLl i herio datblygiad o ran ansawdd dylunio ac felly nid oedd yn cael ei fodloni bob amser.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr awdurdod bellach wedi cyrraedd man lle'r oedd angen iddo ailystyried ei bolisi mewn perthynas â llety myfyrwyr.  Cyfeiriodd swyddogion at gais diweddar i newid defnydd llety myfyrwyr dros dro.

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd y datblygwr yn ceisio newid defnydd yn barhaol ac y bydd y datblygiad yn dychwelyd i lety myfyrwyr yn y flwyddyn academaidd nesaf. Barnwyd y cais yn ôl ei rinweddau ac ni fydd yn gosod cynsail. Bydd unrhyw gais arall yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod hefyd. Os derbynnir cais am newid defnydd parhaol yna bydd ystod o ffactorau eraill yn dod i rym gan gynnwys A106.

- Croesawodd yr Aelodau y cynnydd mewn beicio a nodwyd yn yr adroddiad. Nododd Aelodau hefyd fod y tagfeydd a'r allyriadau hefyd yn cynyddu. Roedd yr Aelod Cabinet yn derbyn bod ansawdd yr aer yn broblem yn y ddinas. Mae'r awdurdod wedi nodi ei gynllun i wella ansawdd aer y 18 mis nesaf.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd fyddai'r orsaf fysiau ganolog a Hyb Ffordd Waun-gron yn weithredol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am y wybodaeth ddiweddaraf am y llwybrau Teithio Cyflym ar Fysiau a nodir yn y CDLl. Nododd yr Aelod Cabinet y darparwyd yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r orsaf fysiau yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi. Bydd gwaith yn Hyb Ffordd Waun-gron yn dechrau yn y flwyddyn newydd a bydd yn cymryd tua 9 mis i'w gwblhau. O ran Teithio Cyflym ar Fysiau, roedd y rhain yn uchelgeisiol a byddant yn cael eu cynnwys yn y Papur Gwyn ar Drafnidiaeth.

PENDERFYNWYD - bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

19 : STRATEGAETH ANGLADDAU FFORDDIADWY A DARPARU MANNAU CLADDU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi trosolwg ar gostau cynyddol angladdau a sut y gall hyn effeithio ar drigolion yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Strategaeth Angladdau Fforddiadwy Ddrafft sy'n ceisio rhoi gwybod i'r cyhoedd am gostau angladdau a'r dewisiadau sydd ganddynt i gaffael angladd fforddiadwy ac urddasol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod costau angladdau wedi codi 112% dros y 13 blynedd diwethaf. Erbyn hyn mae un o bob chwech o bobl yn cael trafferth fforddio talu am angladd perthynas. Cyfartaledd cost angladd yn y DU yw £4,271 a chyfartaledd Cymru yw £3,538. Gall cost angladd sylfaenol yng Nghaerdydd amrywio o lai na £2,000 i £5,000.

Mae Taliad Angladd y Gronfa Gymdeithasol ar gael i rai pobl sydd ar incwm isel neu sy'n cael budd-daliadau penodol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn talu'r gost gyfan a chaiff llawer o ymgeiswyr eu gadael â dyled. Beirniadwyd y broses grantiau am fod yn gymhleth ac am gymryd gormod o amser. Mae llawer o bobl wedi ymrwymo i wneud trefniadau angladd cyn y gwyddys a fydd arian ar gael.

Mae Gwasanaeth Angladd Cyngor Caerdydd wedi bod yn ei le ers 16 mlynedd. Darperir y gwasanaeth gan Gyfarwyddwr Angladdau Lleol ar gost isel ac mae ar gael i unrhyw un. Cyfanswm cost y gwasanaeth am amlosgi yw £1,784. Mae'n parhau 50% yn is na chost angladd gyfartalog y DU.

Amcan y Strategaeth Angladdau Fforddiadwy Ddrafft yw creu cynllun gweithredu i sicrhau yr eir i'r afael â'r ystod o ffactorau sy'n effeithio ar allu pobl i fforddio angladd, tra'n rhoi cyngor ac arweiniad i breswylwyr ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Michael Michael, Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd ac i Martin Birch, Gwasanaeth Profedigaeth a Gwasanaethau Cofrestru i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael i wneud datganiad. Dywedodd y Cynghorydd Michael fod costau angladdau yn cynyddu a bod yr awdurdod yn cymryd camau i ddarparu angladd fforddiadwy am bris rhesymol i breswylwyr. Yn ddiweddar, enillodd y Gwasanaethau Profedigaeth wobr Gwasanaeth Cyhoeddus APSE ac mae'r awdurdod yn awyddus i adeiladu ar y gwasanaeth rhagorol hwn.

Rhoddodd Martin Birch gyflwyniad byr. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i wneud sylwadau, i ofyn am eglurhad neu i godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Crynhoir y trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer angladdau coetir yn y safle newydd yn Nraenen Pen-y-graig. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai claddu naturiol yn ffurfio tua 25% o gyfanswm y safle. Byddai'r holl ddewisiadau traddodiadol eraill ar gael hefyd. Ni nodwyd tir ar gyfer mynwent anifeiliaid anwes eto, ond roedd yr opsiynau'n cael eu hystyried.

- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion o ran y costau cyfansoddol sy'n gysylltiedig â chyfartaledd y DU o £4,271 ar gyfer gwasanaethau angladdau. Nododd swyddogion fod ffigwr Gwasanaeth Angladdau Caerdydd, sef £1,784, yn cynnwys ffi'r trefnwyr angladdau, ffi meddygon a ffi amlosgi. Mae'r ffigwr ychydig yn wahanol ar gyfer claddu. Mae blodau ac arlwyo yn wariant ychwanegol ac mae pryderon bod rhai pobl yn cael eu rhoi dan bwysau i wario mwy nag y gallant ei fforddio.

- Croesawodd y Pwyllgor y cynigion i roi cyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth drafod profedigaeth. Roedd aelodau o'r farn bod y rôl hon yn un fedrus a sensitif ac y byddai angen set penodol o sgiliau ar unrhyw staff perthnasol. Dywedodd y swyddog fod y gwasanaeth yn dymuno gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y 3ydd sector sydd â'r sgiliau hynny.

- Gan gyfeirio at y cyflwyniad, gofynnodd yr Aelodau beth oedd y ffi darged yn gysylltiedig â hi ac a oedd y gwasanaeth yn ceisio cynyddu'r ffi. Dywedodd y swyddog fod y ffigurau hyn yn dangos yr hyn y gallai'r gwasanaeth ei godi, a'i fod yn parhau i fod o fewn y chwartel isaf. Atgoffwyd Aelodau fod gan y gwasanaeth adnoddau digonol o incwm a bod ymrwymiadau, pwysau cyllidebol a buddsoddiadau y mae angen eu hystyried.

- Cefnogodd yr Aelodau gynigion ar gyfer ymgyrch i ddechrau sgyrsiau am angladdau yn gynharach. Roedd aelodau o'r farn bod pobl yn aml am gael angladdau syml. Dywedodd swyddogion y gallent ddarparu cyngor i deuluoedd, i redeg drwy wahanol ddewisiadau ac i sicrhau bod teuluoedd yn barod. Yn aml, ni thrafodir y materion hyn. Mae hyn yn arwain at deuluoedd yn teimlo'n euog ac o dan bwysau gan arwain at effeithiau ar y broses alaru. Dywedodd aelod nad yw'r materion hyn yn cael eu trafod yn aml mewn cymunedau PDdLlE

*This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg*

a'i bod yn bwysig bod y cymunedau hyn hefyd yn cael eu cynnwys mewn sgyrsiau o'r fath.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai cynnydd yn y ffioedd profiant yn cael effaith. Er bod Ffioedd Profiant yn mynd i gynyddu, nid oedd yn hysbys faint bydd y cynnydd. Daw hyn i rym pan fydd ystâd ac ni chaiff hyn ei gydnabod yn gyffredinol fel mater o dlodi angladdau.

PENDERFYNWYD - bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

20 : RHAGLEN WAITH DDRAFFT 2019/20

Trafododd yr Aelodau'r opsiynau ar gyfer y Rhaglen Waith tan ddiwedd Rhagfyr 2019. Cymeradwywyd cynigion drafft y Rhaglen Waith.

21 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Trafododd yr Aelodau lythyr a ysgrifennwyd gan y Grŵp Gorchwyl 'Rheoli Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol yng Nghaerdydd'. Roedd hwn yn mynd i'r afael â sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a oedd gan y grŵp gorchwyl mewn perthynas â'r 'Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau' drafft sydd i'w derbyn gan y Cabinet ar 26 Medi 2019. Cymeradwyodd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd y dylid ei anfon at yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth cyn cyfarfod y Cabinet ar 26 Medi 2019.

22 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbyswyd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nesaf yn cael ei drefnu ar gyfer 1 Hydref 2019.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.55 pm